


CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref
Ffordd Wynnstay
RHUTHUN
LL15 1AS
Ffôn: (01824) 703797
e-bost: clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk



Town Hall
Wynnstay Road
RUTHIN
LL15 1AS
Tel: (01824) 703797
e-mail: clerk@ruthintowncouncil.gov.uk

Clerc y Dref / Town Clerk: Sandra Williams

Eich Cyf/Your Ref:

Ein Cyf/Our Ref:

Dyddiad/Date:

17 Mai 2016

At Faer y Dref a Chynghorwyr
Cyngor Tref Rhuthun

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi fynychu Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos LUN, 23 MAI 2016** am **7:00p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yno yn yr agenda isod.

Yn gywir

Sandra Williams

Sandra Williams

Clerc y Dref

AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2. DATGAN BUDDIANNAU

Datgelu buddiannau personol ac ariannol mewn eitemau busnes a restrir isod.

3. ADRODDIAD YR HEDDLU

Derbyn adroddiad ar faterion plismona gan Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu Sandra Jones.

4. CYFLWYNIAD GAN GYMDEITHAS CYMUNED LLANFWROG COMMUNITY ASSOCIATION

Derbyn rhagor o fanylion gan Mr Rod Bowden, Ymddiriedolwr, a Mr Bleddyn Jones, Rheolwr y Ganolfan, ynghylch y cais am gymorth ariannol gan y mudiad uchod. Edrychwch hefyd ar y llythyr a dderbyniwyd ar 12 Mai 2016 (amgaeedig).

5. ADRODDIAD Y MAER

6. ADRODDIADAU'R AELODAU

7. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL DIWETHAF

Derbyn a chadarnhau bod cofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2016 yn gywir.

8. MATERION YN CODI

- 9. COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL**
Derbyn a mabwysiadu cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 16 Mai 2016.
- 10. PWYLLGOR CYNLLUNIO**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2016 (copi gwyrdd).
- 11. PWYLLGOR AMWYNDERAU**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2016 (copi melyn).
- 12. GORCHYMYN BANC – BANC BARCLAYS**
Cadarnhau llofnodwyr newydd h.y. y Maer a'r Dirprwy Faer, ar gyfer y gorchymyn banc.
- 13. AELODAU CYNGOR TREF RHUTHUN**
Cadarnhau bod manylion yr aelodau yn gywir ac at ddefnydd yr aelodau yn unig (copi pinc).
- 14. AELODAETH PWYLLGORAU 2016/17**
Ystyried aelodaeth y gwahanol bwyllgorau (copi glas).
- 15. CYNRYCHOLAETH AR GYRFF ALLANOL 2016/17**
Adolygu a diweddarau rhestr cynrychiolaeth y Cyngor Tref ar gyrff allanol (copi gwyrdd).
- 16. ADNEWYDDU AELODAETH – CYNGOR GWASANAETHAU GWIRFODDOL SIR DDINBYCH**
Ystyried adnewyddu aelodaeth CGGSDd ar gost o £15.00.
- 17. GOHEBIAETH**
(i) Neges e-bost oddi wrth Emily Reddy, Uwch Swyddog Datblygu, CGGSDd, ynghylch bod yn rhan o Raglen Loteri Fawr Cymru gyda'r nod o wella Datblygu ar sail Asedau Cymunedol.
- 18. LOGO CYNGOR TREF RHUTHUN**
Ystyried y logo presennol a'r logos wedi eu diweddarau.
- 19. ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2016**
To receive a copy of the Internal Audit Report for JDH Business Services Ltd (yellow copy).
- 20. ADRODDIAD ARCHWILIAD ALLANOL**
(a) Cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol, ar ffurf drafft, a'r Cadeirydd i lofnodi tudalen 1.
(b) Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- 21. DATGANIAD ARIANNOL**
Derbyn a chymeradwyo datganiad ariannol y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 30 Ebrill 2016 (copi pinc).
- 22. CYFRIFON I'W TALU**
Cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn:
- | | | | |
|------|--|--|-----------|
| 887 | Gŵyl Rhuthun | Cyfraniad | £1,000.00 |
| 888 | Cymdeithas Strôc | Dewis elusen Dinesydd Da'r Flwyddyn | £100.00 |
| 889 | Clwb Triathlon Sir Ddinbych | Dewis fudiad Person Ifanc y Flwyddyn | £100.00 |
| D.D. | BT Business | Gwasanaethau band eang | * £75.72 |
| 890 | Llanfwrog CIC | Gwasanaeth torri glaswellt – Ebrill a Mai 2016 | £856.50 |
| 891 | Cymorth Cynllunio Cymru | Hyfforddiant cynllunio – Cynghorydd Ian Lewney | £25.00 |
| 892 | Cyngor Gwasanaethau
Gwirfoddol Sir Ddinbych | Adnewyddu aelodaeth | £15.00 |

893	Mrs Val Wright	Gwaith trwsio Clogyn y Maer		£38.00
894	JDH Business Services Ltd	Ffi am archwiliad mewnol 2015/16	*	£306.00
895	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd – Cyfarfod Blynyddol	*	£108.00
896	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd 23 Mai 2016	*	£108.00
897	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		£252.83
898	Cyng. Geraint Woolford	Lwfans y Maer (rhan daliad)		£600.00

(Mae'r eitemau a nodir â * uchod yn cynnwys T.A.W. adferadwy gwerth £99.62)

23. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 27 Mehefin 2016.